

Gweithlyfr Dogfen Hygyrchedd

gan Creativity is Mistakes



Dogfennau a ddefnyddir gan artistiaid anabl er mwyn rhannu eu gofynion mynediad yw dogfennau hygyrchedd ac maent yn offer hanfodol er mwyn galluogi artistiaid anabl i weithio heb fod rhwystrau yn cael eu gosod ger eu bron.

Defnyddiwch y gweithlyfr hwn i hysbysu pobl a sefydliadau yr ydych yn gweithio gyda nhw sut y gallant eich cefnogi.

Gallwch ddod o hyd i gyfarwyddyd ychwanegol yn ogystal â fersiwn digidol o'r gweithlyfr hwn yn y fan hon:



Helo, fy enw yw

ac rwy'n defnyddio'r rhagenwau a ganlyn

Cyfeiriad Epost

Rhif ffôn (dewisol)

Fy newis ddull o gyfathrebu yw drwy epost ffôn arall, yn ystod yr oriau/diwrnodau a ganlyn

Enw cyswllt brys

Rhif cyswllt brys

Unrhyw wybodaeth ddefnyddiol arall mewn argyfwng, er enghraifft gwybodaeth am alergeddau neu gyfarpar brys.

.....
.....
.....

Cyflwyniad

Defnyddiwch y gofod hwn er mwyn eich cyflwyno eich hunan a'ch ymarfer. Nid oes gofyn i chi ddatgelu gwybodaeth feddygol yn y fan hon, ond gallwch wneud hynny os ydych yn credu y bydd o gymorth i eraill ddeall yn well eich profiad bywyd.

Dulliau Gweithio

Er enghraifft: sut fuasech yn hoffi derbyn gwybodaeth, eich oriau gweithio, pa mor aml y mae angen egwyl arnoch, a oes angen ardal orffwys arnoch yn ystod y dydd, a oes angen cymorth arnoch i gludo cyfarpar, a yw'n well gennych weithio gartre.

Cyfarfodydd

Er enghraifft: sut a lle sydd orau gennych gyfarfod, pa mor aml y mae angen egwyl arnoch, a oes angen lladmerydd neu weithiwr cymorth arnoch er mwyn mynychu.

Teithio

Er enghraifft: eich dewis ddull o deithio (trên, car ayb), a fydd cyfaill neu weithiwr cymorth yn teithio gyda chi, pa adeg o'r dydd sydd orau gennych deithio, a oes angen gwasanaeth tacsï arnoch, faint o rybudd sydd ei angen arnoch er mwyn teithio, a oes angen bathodyn glas (Teyrnas Gyfunol) lle parcio arnoch.

Llety

Er enghraifft: y math o lety sydd orau gennych (gwesty, hunan-ddarpar, fflat ayb), a yw mynediad di-ris yn ofynnol, a fydd cyfaill neu weithiwr cymorth yn aros gyda chi ac a oes angen llety ar wahân arnynt.

Gweithwyr Cymorth

Mae gofyn i mi gael y gweithwyr cymorth hyn er mwyn cyflawni fy ngwaith. Rhaid i'r sefydliad sy'n fy ngwahodd fod yn gyfrifol am dalu eu costau:

- Lladmerydd Iaith Arwyddo Prydeinig, cyfradd yr awr
- Capsinydd byw, cyfradd yr awr
- Gweithiwr Cymorth/Cynorthwydd personol, cyfradd yr awr
- Arall cyfradd yr awr

Unrhyw wybodaeth arall am weithwyr cymorth, er enghraifft a oes gweithiwr cymorth neilltuol y mae'n well gennych weithio ag ef/â hi/â nhw, neu a oes yna amgylchiadau lle gallasai fod angen cefnogaeth wahanol/ychwanegol arnoch.

Unrhyw wybodaeth arall

Llongyfarchiadau! Mae gennych bellach Ddogfen Hygyrchedd. Gallwch rannu copi o'r ddogfen hon gyda'r person neu'r sefydliad yr ydych yn gweithio ag ef/â hi/â nhw. Unwaith y byddont wedi ei darllen, gofynnwch iddynt lofnodi'r datganiad isod.

Dyddiad yr ysgrifennwyd/diweddarwyd y ddogfen hon:

Mae'n werth adolygu a diweddarau eich Dogfen Hygyrchedd bob rhyw dri i chwe mis. Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhannu'r ddogfen a ddiweddarwyd gydag unrhyw un yr ydych yn gweithio ag ef/â hi/â nhw.

Datganiad

"Yr wyf wedi darllen ac wedi deall y ddogfen hon ac rwy'n ymrwymo i gefnogi'r artist yn unol â'r telerau hyn hyd eithaf fy ngallu. Oni ellir bodloni unrhyw un o'r gofynion a nodir yn y ddogfen hygyrchedd hon, fe wnafraf hynny gyda'r artist cyn gynted â phosib er mwyn dod o hyd i ateb amgen. Bydd y ddogfen hon yn cael ei thrin yn gwbl gyfrinachol."

Arwyddwyd gan [enw] Llofnod

Ar ran [sefydliad] Dyddiad

Os ydych yn cwblhau'r ffurflen hon â llaw, yr ydym yn argymhell eich bod wastad yn cadw'r ddogfen wreiddiol. Gallwch wneud llungopiau ar gyfer y person neu'r sefydliad yr ydych yn gweithio ag ef/â hi/â nhw i'w llofnodi.

disabilityarts.cymru/
creativityismistakes

Illustrated by
≡ CAMILLE AUBRY ≡



Creadigrwydd
yw Camgymeriadau
Creativity is
Mistakes



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Disability Creu Celf
Arts Cymru

g|39

artesmundi

mostyn

Venture
Arts 